

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Nos Fercher, Chwefror 4: Dosbarth Beiblaidd yn 'Yr Haciau', Penisarwaun am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Chwefror 8: Bydd yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Fercher, Chwefror 4: Dosbarth Beiblaidd yn 'Yr Haciau', Penisarwaun am 7.00 o'r gloch.

Nos Wener, Chwefror 6: CIC am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Chwefror 8: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog, a gweinyddir y Cymundeb. Cynhelir yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Bydd oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Chwefror 8: Ni fydd oedfa.

BETHLEHEM

Dydd Iau, Chwefror 5: Cynhelir 'Bwrlwm' am 2.00 o'r gloch.

Y mis nesaf - Deiniolen

Chwefror 1

9.30 a.m. - Y Gweinidog
10.15 a.m. - Ysgol Sul

Chwefror 8

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Dafydd Ll Hughes

Chwefror 15

10.00 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Chwefror 22

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Dafydd C Williams

Dydd Sul, Chwefror 8: Bydd yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog, Gweinyddir y Cymundeb.

CARMEL

Nos Wener, Chwefror 6: Cynhelir 'Dwylo Prysor' am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Chwefror 8: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch a chynhelir oedfa am 5.00 o'r gloch.

CYNLLUN EFE

Nos Lun, Chwefror 2: Bydd Pwyllgor Ymddiriedolwyr Efe yn cyfarfod yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch.

Dydd Gwener, Chwefror 6: Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caethro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch.



Y mis nesaf - Llanberis

Chwefror 1

10.00 a.m. - Andrew Settatree
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Andrew Settatree

Chwefror 8

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Chwefror 15

10.00 a.m. - Y Parchg W R Williams
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg M Williams

Chwefror 22

10.30 a.m. - Oedfa Deulu



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 623 Dydd Sul, 01 Chwefror, 2015

Dim mwy o golff

Mae golffwyr da yn gyfarwydd ag adar gan fod *byrdi* ac *eryr* ac *albatros* yn rhan o eirfa'r gêm. Ond mae'n debyg mai anifeiliaid ac nid adar fydd i'w gweld ar Gwrs Golff Llangefni o fewn ychydig wythnosau. Mae Cyngor Môn newydd gyhoeddi y bydd y Cwrs Golff y bu'n ei gynnal yno ers deng mlynedd ar hugain yn cau fis Ebrill. Caiff y tir ei roi ar les at ddefnydd amaethyddol am ddwy flynedd cyn ei werthu yn 2017. Yn amlwg, yr argyfwng ariannol y mae pob cyngor sir yn ei wynebu sydd y tu cefn i'r penderfyniad hwn a fydd yn peri siom fawr i lawer o bobl sydd wedi mwynhau taro'r bêl fach dros erwau braf y cwrs hwn.

Mi fûm innau yno ambell waith. Nid mod i'n golffwr chwaith. Doedd dim angen bod yn golffwr gan mai rhan o bwrpas y cwrs bychan hwn oedd rhoi cyfle i bobl amhrofiadol i chwarae'r gêm. Roedd o'n lle delfrydol i fynd â'r hogiau ar ddiwrnod braf o wyliau. A phob tro y byddem yn mynd yno, mi fyddem yn addo i'n gilydd y byddem yn mynd yn amlach. Ond doedd hynny byth yn digwydd; a'r gwir ydi na fûm i yno fwy na hanner dwsin o weithiau dros yr ugain mlynedd diwethaf. Roedd hi'n siom clywed y bydd y cwrs yn cau am ei fod, yn ôl y cyhoeddiad, yn gwneud colled flynyddol o £28,000. Prin y byddwn i wedi gwneud fawr o wahaniaeth i'r swm hwnnw trwy fynd yno'n fwy aml. Ac er mai ymwelydd achlysurol iawn fûm i, mae yna hen deimlad o chwithdod o glywed y bydd y cwrs yn diflannu.

Mae'n debyg y bydd sawl un ym Môn yn difaru na fydden nhw wedi gwneud mwy o ddefnydd o'r cwrs wrth ei weld yn cau. Yr un yw'r stori o hyd pan fydd pobl yn gofidio bod eu siopau a'u caffis a'u tafarndai a'u neuaddau lleol yn cau. Dim ond wedi iddyn nhw gau y bydd llawer o bobl yn gweld gwerth y pethau hyn. Dim ond wedyn y mae'n gwawrio arnyn nhw nad oedd dim i'w ddisgwyl ond cau os nad oedd pobl yn eu cefnogi. Mae'r cawr mawr Tesco hyd yn oed yn cau siopau erbyn hyn am nad oes digon o gwsmeriaid yn dod trwy'r drws.

Siopau, caffis, tafarndai, neuaddau. A chapeli ac eglwysi. Oherwydd does dim parhad i'r rheiny chwaith heb bobl i'w mynychu a'u cynnal. Mae llawer yn gofidio bod capeli'n cau er na fuon nhw ar eu cyfyl ers blyneddoddedd! Ond nid mater o gefnogi capel yn unig yw hyn, wrth gwrs. Nid y llain tir oedd y peth pwysicaf yn Llangefni ond yr hwyl oedd i'w gael wrth chwarae arno. Ac nid capeli ond yr hyn sy'n digwydd ynddyn nhw sy'n bwysig. Eu gwerth yw eu bod yn llefydd i bobl gyfarfod i addoli Duw ac i gael cymdeithas ag eraill sy'n arddel yr un ffydd yn Iesu Grist. Maen nhw'n llefydd i bobl o bob oed glywed yr Efengyl a dysgu am y bywyd Cristnogol. Ac os ydyn nhw'n dal i wneud hynny yn ein hoes dywyll ni, mae'n werth eu diogelu ac, ie, eu cefnogi hyd orau ein gallu. Ac am y rheswm hwnnw, diolchwn i Dduw o'r newydd am bawb a fu, a sydd o hyd yn ffyddlon ynddyn nhw.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul. Boed bendith Duw ar ein haddoliad heddiw wrth i ni uno i foliannu Duw. 'Bloeddihwch mewn gorfoledd i Dduw, yr holl ddaear' (Salm 66:1).

Bydd yr oedfaon yn Capel Coch am 10.00 a 5.00 o'r gloch yng ngofal Mr Andrew Settatree. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 9.30 o'r gloch gan y Gweinidog a chynhelir yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Rehoboth am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd Coetmor Williams. Diolch iddo am ei gymorth.

Bydd Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir yn yr Oedfa Gymundeb am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Cofion

Anfonwn ein cofion gorau at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

Cyfarfod Chwarter

Yng Nghapel Coffa Cyffordd Llandudno yr oedd Cyfarfod Chwarter Annibynwyr Gogledd Arfon nos Fercher diwethaf.

Yn ystod y cyfarfod cafodd Mrs Megan Tomos, Carmel, Llanllechid ei hethol yn un o gynrychiolwyr y Cyfundeb ar Gyn-gor Undeb yr Annibynwyr Cymraeg am y tair blynedd nesaf. Dymunwn yn dda iddi gan obeithio y bydd yn mwynhau'r gwaith a'r gymdeithas.

Trosgrlwyddodd Mr Cynrig Hughes, Peniel, Pentir gadeiryddiaeth y Cyfundeb i'r Parchg Gareth Edwards, Capel Coffa. Wrth wneud hynny, cyflwynodd Feibl y Cadeirydd i ofal y cadeirydd newydd. Yn ei anerchiad, soniodd Cynrig am rai o'r dylanwadau y credai ef a fu arno, yn ddiarwybod iddo'i hun hyd yn oed: un o'i gyndeidiau a ddaeth i Landdeiniolen o Sir Fôn ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac a ddaeth yn amlwg i ffydd yn Iesu Grist yn ei ardal newydd, a dod yn ddiakon ac yn bregethwr teithiol; yna ei daid a fu'n ddiakon a gweithiwr ffyddlon yn eglwys Ebeneser, Deiniolen am flynyddoedd lawer; ac yna ei dad. Y peth mawr a bwysleisiai Cynrig am ei dad oedd na wnaeth erioed bwysu arno i 'ddod nôl' i'r capel trwy'r blynyddoedd yr oedd y mab wedi cefnu ar gymdeithas yr eglwys. Wrth wrando arno'n dweud hynny, fedrwn i ddim peidio â meddwl tybed faint o weddio a wnaeth ei dad drosto'r blynyddoedd hynny. Tybed oedd y tad yn gadael llonydd i'r mab ond yn galw ar Dduw i'w arwain.

Angladd

Cynhaliwyd angladd Mrs Elizabeth Griffith, 15 Ffordd Deiniol, Deiniolen yn Amlosgfa Bangor ddydd Iau, Ionawr 29 dan arweiniad y Gweinidog. Bu farw ddydd Gwener, Ionawr 23 yn 95 mlwydd oed.

Un o Lanfair Caereinion oedd hi yn wreiddiol, ond roedd wedi byw yma yn Neiniolen ers blynyddoedd maith. Ar un adeg bu'n Drysorydd ac yn chwarae'r organ yng nghapel Tabernacl y Wesleaid yn y pentref. Roedd yn wraig fonheddig ac addfwyn, ac yn groesawgar a hwyliog ar ei haelwyd. Cydymdeimlwn eto â'i phlant a'i hwyron a'i gor-wyrion yn eu colled a'u hiraeth.

Cymdeithas Undebol

Cynhaliwyd y Gymdeithas Undebol yn Neiniolen nos Lun diwethaf, Ionawr 26. Cafwyd sgwrs am ôl-rifynnau *Gronyn*. Dangoswyd lluniau i'n hatgoffa o rai o'r bobl a'r digwyddiadau y bu sôn amdany'n nhw ar dudalennau *Gronyn* ers mis Medi 2001. Cyflwynwyd y diolchiadau gan Mr John Ll Williams.

Soniais am bob math o bobl a phob math o ddigwyddiadau, ac ar wahân i'r rhai mwyaf dieithr roedd y gynulleidfa'n gallu adnabod ac enwi'r mwyafrif. A bod yn gwbl onest, roeddwn i fy hun wedi anghofio llawer o'r straeon, a doeddwn i ddim yn cofio i mi sôn am amryw o'r bobl a ddangoswyd ar y sgrin. Ond roedd ambell un yn aros yn fy nghof, fel y stori am weinidog o'r Alban a ddeuai i Abersoch bob blwyddyn pan oeddwn i yno. Y Parchg David Patterson oedd hwnnw, a fo oedd y gweinidog a fynnodd gael mynd i weld John Lennon yn yr ysbyty lleol wedi i'r Beatle enwog gael damwain car yn yr Alban. O nabod David Patterson, roedd y stori amdano'n sôn am Iesu Grist wrth John Lennon yn un hawdd ei chredu.

Pwyllgor Efe

Cynhelir pwyllgor Ymddiriedolwyr Efe yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch nos yfory, nos Lun, Chwefror 2.

Dosbarth Beiblaidd

Bydd y Dosbarth Beiblaidd a gynhelir yn Yr Haciau, Penisarwaun yn ail ddechrau'r wythnos hon, am 7.00 o'r gloch, nos Fercher, Chwefror 4. Mi gawn ni edrych ar 'broffwydi byrion' yr Hen Destament dros yr wythnosau nesaf. Y bwriad yw cael golwg sydyn ar un llyfr cyfan ym mhob cyfarfod, gan ddechrau efo Llyfr Joel yr wythnos hon.

Cyfarfod Gweddi Efe

Cynhelir y Cyfarfod Gweddi nesaf yn nhy Andrew Settatree, Cartref, Caeathro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch fore Gwener, Ionawr 30.

Croeso i unrhyw un ddod atom, ac nid oes rhaid poeni am ddod bob wythnos os nad yw'n hwylus wrth gwrs.

CIC

Cynhelir CIC yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch nos Wener nesaf, Chwefror 6.

Cwrs Ieuentid

Cynhelir Cwrs Ieuentid (11-16 oed) yng Ngholeg y Bala o nos Wener hyd ddydd Sul, Chwefror 20-22.

Mae'r manylion llawn a'r ffurflenni gan Andrew Settatree. Bydd angen archebu lle yn fuan cyn bod y lle yn llawn.

Swper Gŵyl Ddewi

Cynhelir Swper Gŵyl Ddewi Bethlehem Talybont yng Nghaffi Coed y Brenin, Bethesda, nos Fercher, Chwefror 11, am 7.00 o'r gloch.